Howell Harris, 1714–73
Diwygiwr crefyddol ac un o geffylau blaen y Diwygiad Methodistaidd

Yn y cyfnod tywyll pygddu
Fe ddaeth dyn fel mewn twym ias
Yn llawn gwreichion goleu tanllyd
O Drefecca fach i ma's.

William Williams, Pantycelyn

Mab oedd Howell Harris i Howell Powell (Harris) o Langadog a fuodd i Dalgarth oddeutu 1700 gan briodi Susanna Powell, Trefeca-fach ym 1702. Enwyd y cartref a adeiladwyd ym 1576 ar ôl y perchennog cyntaf, sef Rebecca Prosser, ac yno y ganwyd Howell ar 23 Ionawr 1714, yr ieuengaf o bedwar o blant. Addysgwyd ef yn Ysgol Ramadeg Llwyn-llwyd, ac wedi marwolaeth ei dad ym 1731 cafodd waith fel athro yn Llan-gors a Llangasty hyd nes iddo ennill ei 'Matriculation'. Bwriad y teulu oedd iddo fynd i Rydychen i ennill urddau eglwysig, ond nid dyna fwriad Duw. Ym 1735, dan weinidogaeth Pryce Davies, ficer Talgarth, fe gafodd dröedigaeth. Ymaelododd yn Neuadd y Santes Fair, Rhydychen, ond gadawodd ar ôl wythnos yn unig. Cadarnhawyd ei ffydd wrth dderbyn y Cymun ar y Sulgwyn dilynol, a thystiodd, 'Wrth y Bwrdd, cedwid Crist yn gwaedu ar y Groes yn gyson o flaen fy llygaid, a nerthwyd fi i gredu fy mod yn derbyn maddeuant ar gyfrif y gwaed hwnnw. Collais fy maich; aethum tuag adref gan lamu o lawenydd... O! ddiwrnod bendigedig, O! na allwn ei gofio yn ddiolchus dros fyth!'

Ceisiodd am urddau eglwysig y flwyddyn ddilynol, ond gwrthodwyd ef oherwydd ei fod yn pregethu'n afreolaidd. Wedi profi gras Duw aeth ati i weithio dros Iesu Grist ac i genhadu'n lleol. Ymestynnodd cylch ei ddylanwad yn raddol a deuai nifer gynyddol i wrando arno. Yn gynnar yn ei hanes cychwynnodd seiadau lle y gallai credinwyr addoli a rhannu eu profiadau.

Dywedid mai yn y Wernos tua Mai 1737 y sefydlwyd y seiat oedd efallai yn fam Methodistiaeth Cymru, ac yn y cyfnod hwn hefyd daeth i gysylltiad â llawer o bobl a ddylanwadodd yn drwm arno, fel Gruffudd Jones, Daniel Rowland, George Whitefield a John Wesley.

Gydol ei fywyd bu tyndra rhwng ei ymlyniad wrth yr Eglwys Sefydledig a Methodistiaeth. Wrth gwrs nid cychwyn eglwys newydd oedd bwriad y Methodistiaid ond diwygio'r Eglwys Anglicanaidd. Gweithiodd Howell Harris yn ddiflino er mwyn cyflwyno'r Efengyl, a theithiodd gannoedd o filltiroedd yn fisol yng Nghymru a Lloegr gan gadw dyddiadur manwl o'r cyfan. Bob hyn a hyn byddai'n wynebu erledigaeth gan yr awdurdodau a phobl leol, ac ar un achlysur cafodd ei guro'n ddidrugaredd â phastwn yn y Bala. Ym 1744 priododd ag Anne Williams, merch John Williams o'r Ysgrîn.

Ni fu'r Diwygiad Methodistaidd yn fêl i gyd i Harris oherwydd ym 1751 bu dadl ffyrnig rhyngddo a Daniel Rowland a barodd rwyg a lesteiriodd beth ar y llwyddiant. Ymneilltuodd Harris gan sefydlu 'Teulu' yn Nhrefeca, sef cymdeithas glòs o gredinwyr lle roedd popeth yn gyffredin rhwng pawb, a Christnogaeth yn foth i'r cyfan. Yr oedd cymaint â chant yn cyd-fyw yn Nhrefeca a datblygwyd pob math o grefftau yn eu plith, gyda rhai yn amaethu, nyddu, argraffu neu'n gweithio yn y felin. Ymddiddorai Harris mewn amaethyddiaeth ac roedd yn un o sefydlwyr Cymdeithas Amaethyddol Brycheiniog. Ym 1760 ymunodd ef a 24 aelod o'r Teulu â Milisia Brycheiniog a theithiasant yma ac acw am dair blynedd, pryd y manteisiodd Harris ar bob cyfle i bregethu Iesu Grist. Ymunodd â'i hen gyfeillion ym 1762 gan ailafael yn y gwaith o fynychu'r sasiynau, ymweld â'r seiadau, a phregethu megis cynt. Dirywiodd ei iechyd ym 1772 a bu farw ar 21 Gorffennaf 1773. Claddwyd ei weddillion ger allor eglwys Talgarth. Yr oedd yn un o Gymry mwyaf ei oes.